

Ysgol Gymraeg Gwynllyw



Pecyn Gwybodaeth
Information Booklet
Blwyddyn 6
Year 6



CYNNWYS CONTENTS

Amdanon ni / About Us

Rhinweddau Dysgwr Gwynllyw/ Gwynllyw Learner Attributes

Staff allweddol / Key Staff

Gwisg Ysgol / School Uniform

Trefn y Dydd / Daily Routine

Offer / Equipment

Trafnidaeth / Transport

Y Ffreutur / The Canteen

Astudio Annibynnol / Independent Study

Prydau Ysgol am Ddim / Free School Meals

Grant Hanfodion Ysgol / School Essentials Grant



AMDANOM NI - ABOUT US



Sefydlwyd yr ysgol ym 1988 fel yr ysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf yn hen ardal Gwent. Am ei thair blynedd gyntaf, bu Ysgol Gyfun Gwynllyw yn hen dy Ysgol Fabanod Abercarn ond cyn hir aeth yn rhy fawr i'r adeilad. Fel un o'r ysgolion oedd yn tyfu cyflymaf yng Nghymru, roedd angen adeilad mwy ac felly ail-leolwyd yr ysgol yn Nhrefddyn, Pont-y-pwl. Addysgir disgyblion yr ysgol yn gyfan gwbl yn Gymraeg maent yn dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy; Ysgol Gymraeg Cwmbran, Ysgol Panteg, Ysgol Bryn Onnen, Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac Ysgol Gymraeg y Fenni. Y nod yw trochi disgyblion yn y Gymraeg a'u galluogi i gael eu haddysgu'n gyfan gwbl ynddi fel eu hiaith frodorol. Gyda thwf addysg Gymraeg yn lleol, adeiladwyd adran gynradd yr ysgol rhwng 2019 a 2022 ac ers Medi 2022, mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn ysgol 3 i 19 oed; yr ysgol bob oed cyntaf yn Ne Ddwyrain Cymru.

The school was established in 1988 as the first Welsh-medium school in the old Gwent area. For its first three years, Ysgol Gyfun Gwynllyw was in the old Ysgol Babanod Abercarn but it soon became too big for the building. As one of the fastest growing schools in Wales, a larger building was needed and so the school was relocated to Trevethin, Pontypool. The school's pupils are taught entirely in Welsh and come from a range of Welsh medium schools in Torfaen, Blaenau Gwent and Monmouthshire; Ysgol Gymraeg Cwmbran, Ysgol Panteg, Ysgol Bryn Onnen, Ysgol Gymraeg Bro Helyg and Ysgol Gymraeg y Fenni. The aim is to immerse pupils in the Welsh language and enable them to be taught entirely in Welsh as their native language. With the growth of Welsh education locally, the primary phase of the school was built between 2019 and 2022 and since September 2022, Ysgol Gymraeg Gwynllyw is a 3 to 19 school; the first all age school in South East Wales.

RHINWEDDAU DYSGWYR GWYNLLYW – GWYNLLYW LEARNER ATTRIBUTES

Rydym yn anelu at ddatblygu dysgwyr Ysgol Gymraeg Gwynllyw i fod yn

- Gymry balch sy'n ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg, eu Cymreictod, cymdeithas, hunaniaeth a chynefin.
- ddinasyddion cwrtais sy'n parchu eu hunain ac eraill trwy gynnwys pawb a thrin pawb yn gydradd a pharchu lles ei gilydd.
- cydweithio gydag holl aelodau ein cymuned a'r gymuned ehangach.
- dangos agwedd, ymddygiad ac ymdrech cadarnhaol ac yn barod i ddysgu.
- cynnal yr amgylchedd a chefnogi ei gilydd er mwyn meithrin yr ymdeimlad o berthyn a theulu i sicrhau dyfodol cynaliadwy a datblygu fel dysgwyr gydol oes.
- uchelgeisiol ac yn cyflawni eu potensial trwy ddyfalbarhau a dangos dycnwch a chymhelliant.

We aim to develop Gwynllyw learners to

- be proud Welsh citizens who are proud of their language, their culture, community, identity and habitat.
- be polite citizens that respect themselves and each other by including everyone and treating everyone equally and respect each other's wellbeing.
- work together with our community and the wider community.
- demonstrate a positive attitude, good behaviour and effort and are ready to learn.
- maintain the environment and support each other in order to nurture a sense of belonging and family, ensure a sustainable future and develop lifelong learners.
- ambitious and reach their potential through perseverance and by showing resilience and motivation.



STAFF ALLWEDDOL - KEY STAFF

Uwch Dîm Strategol



Mr M Jones



Miss H Rogers



Mr G Jones

Pennaeth

Headteacher

Dirprwy Benaethiaid

Deputy Headteachers

Strategic Leadership Team



Mrs C Jenkins



Mr G Morris



Mrs Rh Dickenson

Penaethiaid Cynorthwyol

Assistant Headteachers

Tîm Cynnydd & Lles

Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 6 a 7 yw Mr Richard Davies.

Bydd dysgwyr wedi cwrdd â Mr Davies yn yr ysgol gynradd ac ar ymweliadau i'r ysgol ar ddiwrnodau pontio. Os ydych chi angen rhagor o wybodaeth neu eisiau cysylltu gyda fe, gallwch ei e-bostio ar richard.davies@gwynllyw.cymru.

Miss Bethan Woods yw'r Swyddog Lles ac Ymddygiad i flynyddoedd 7 ac 8.



The Year 6 and 7 Progress Leader is Mr Richard Davies. Learners will have met Mr Davies in their primary school and during visits to the school during transition days. If you need any further information or would like to get in touch with him, you can email

richard.davies@gwynllyw.cymru.



Mrs Anna Davies yw ein Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Mrs Rachel Williams yw ein Dirprwy Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Maen nhw'n gweithio'n agos iawn gyda'r ysgolion cynradd er mwyn sicrhau bod dysgywr sydd angen cymorth pellach yn derbyn y darpariaeth gorau posib.

Mrs Anna Davies is our Additional Learning Needs Coordinator and Mrs Rachel Williams is our Deputy Additional Learning Needs Coordinator. They work very closely with the primary schools to ensure that learners that need additional support receive the best provision possible.

Swyddogion Diogelu

Mr G Morris



Safeguarding Officers

Miss Rh James



Mrs R Williams



GWISG YSGOL - SCHOOL UNIFORM



Crys Gwyn	White Shirt
Tei Ysgol	School Tie
Trowsus / Sgert Hyd at y Pengliniau / Siorts llwyd tywyll	Charcoal Trousers/ Knee Length Skirt/ Tailored Shorts
Esgidiau Du	Black Shoes
Siwmpwr glas tywyll gyda bathodyn ysgol	Navy V Neck jumper with school badge

Gallwch brynu gwisg ysgol o Ruckerbug neu RuckumMaul. Gallwch brynu tei ysgol o'r ysgol am £5. *School uniform can be bought from Ruckerbug or RuckumMaul. School ties can be purchased from the school at a cost of £5.*

www.ruckerbug.co.uk [YsgolGymraegGwvnltyw \(ruckummaulsports.shop}](http://YsgolGymraegGwvnltyw(ruckummaulsports.shop))



GWISG CHWARAEON - SPORTS UNIFORM



Crys Glas Tywyll	Navy Top
Leggings/ Trowsus Glas Tywyll	Navy leggings/ Trousers
Sgert / Siorts Glas Tywyll	Navy Shorts/ Skirt
Esgidiau Chwaraeon	Trainers
Siwmpwr glas tywyll gyda bathodyn ysgol (dewisol)*	Navy jumper with school badge (optional)*
Crys Hoci/ Rygbi (dewisol)*	Rugby/ Hockey Shirt (optional)*
Sanau Gwyrdd*	Green Socks *

*Rhaid wisgo'r wisg hoci/ rygbi (llundde) gyda sanau gwyrdd os ydych yn cynrychioli'r ysgol. *You will need to wear the hockey/rugby uniform (right picture) with green socks if you are representing the school.*

TREFN DYDDIOL - DAILY ROUTINE

Dylai pob dysgwr gyrraedd yr ysgol erbyn 8:25.

Every learner should arrive on site by 8:25.

Cofrestru / Cyfnod Bugeiliol Registration / Pastoral Session	8:30
Gwers 1 Lesson 1	8:50
Gwers2 Lesson 2	9:50
Egwyl Break	10:50
Gwers3 Lesson 3	11:10
Gwers4 Lesson 4	12:10
Cinio Lunch	13:10
Gwers5 Lesson 5	13:50
Diwedd y dydd End of the day	14:50

Ar y diwrnod cyntaf bydd dysgwyr blwyddyn 7 yn cwrdd yn y Neuadd am wasanaeth croeso cyn treulio amser gyda'r athrawon cofrestru er mwyn trefnu popeth a setlo cyn dechrau gwersi.

On the first day, year 7 learners will meet in the hall for a welcome assembly before spending time with their form tutors, organising everything and settling in before starting lessons.

Bydd y tymor yn dechrau ar ddydd Mawrth y 3ydd o Fedi, 2024 i dysgwyr Gwladys, blynyddoedd 7 a 12 yn unig. Bydd blynyddoedd 8 i 11 yn dychwelyd ar ddydd Mercher y 4ydd o Fedi.

The term will start on Tuesday 3rd September, 2024 for Gwladys learners, years 7 and 12 only. Years 8 to 11 learners will return on Wednesday 4th September.

OFFER YSGOL – SCHOOL EQUIPMENT

Cyfrifoldeb y dysgwr yw ddod ag offer priodol i'r ysgol. Dylai pob dysgwr sicrhau bod ganddynt gas pensiliau â'r offer isod. Dylai pob dysgwr cario bag ysgol cryf er mwyn cario llyfrau, ac agrymwn eich bod yn prynu ffolderi plastig A4 er mwyn diogelu'r llyfrau yn eu bagiau.

It is the learner's responsibility to bring the appropriate equipment to school. Every learner should ensure that they have a pencil case and the equipment below. Every learner should carry a strong school bag suitable for carrying books and we strongly suggest that you purchase A4 plastic folders or covers to protect your school book.

O leiaf 2 beiro du neulas/ At least 2 black or blue pens

O leiaf 2 beiro werdd / At least 2 green pens

O leiaf 2 pensil / At least 2 pencils

Naddwr / Sharpener

Rhwbwr / Rubber

Pren Mesur / Ruler

Onglydd / Protractor

Cwmpas / Compass

Uwcholeuwyr / Highlighters

Pensiliau Lliw / Colouring pencils

Glud/ Glue

Cyfrifianell Gwyddonol / Scientific Calculator



TRAFNIDAETH - TRANSPORT

Dylech chi fod wedi gwneud cais am drafnidaeth pan wnaethoch gais am yr ysgol. Bydd eich awdurod lleol yn trefnu trafniadaeth. O ganlyniad, bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu gyda chi'n uniongyrchol gyda manylion am eich safle bws ac yn danfon tocyn bws i chi.

Fel arfer maent yn cysylltu tua diwedd Awst felly peidiwch â phoeni os dydych chi ddim yn clywed unrhywbeth cyn hynny. Os oes cwestiynau gennych am eich trafniadaeth, dylech chi gysylltu gydag adran trafniadaeth eich awdurdod lleol.



You should have applied for transport when you completed your school application. Your local authority will arrange transport to school. As a result, your local authority will contact you directly with details of your bus stop and send you a bus pass.

Usually, you will be contacted towards the end of August so do not worry if you have not heard anything before then. If you do have any questions about transport, you should contact your local authority transport department.

Torfaen: [Cludiant i'r Ysgol a'r Coleg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#)

Sir Fynwy / Monmouthshire: [Bysiau ysgol - Monmouthshire](#)

Blaenau Gwent: [Trafniadaeth Ysgol | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)



Y FFREUTUR - THE CANTEEN



Mae amrywiaeth o fwydydd ar gael yn y ffreutur. Gall ddysgwyr ddewis pryd o fwyd llawn, brechdanau, salad neu fyrbrydau. Mae bwyd ar gael amser egwyl a chinio ac mae'r ffreutur yn rhedeg clwb brecwast pob dydd.

Rydym yn defnyddio system ddi-arian o'r enw CivicaPay. Byddwch yn derbyn manylion mewngofnodi ym mis Medi. Byddwch yn gallu roi arian ar y cyfrif o flaen llaw ac mae dysgwyr yn talu trwy ddefnyddio eu bys. Oni bai eich bod yn derbyn prydau ysgol am ddim, danfonwch bocs bwyd am y diwrnodau cyntaf tra ein bod ni'n gosod eu cyfrif ar y system.

There is a range of food available in the canteen. Learners can choose to buy a full meal, sandwiches, salad or snacks. There is food available at break time and lunch time and the canteen runs a breakfast club before school every day.

We use a cashless payment system called CivicaPay. You will receive login details in September. You will be able to put money onto an account in advance and learners pay using their fingerprint. Unless you are entitled to free school meals, please send your child with a packed lunch for the first few days whilst we get them set up on the system.



ASTUDIO ANNIBYNNOL - INDEPENDENT STUDY

Rydym yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu er mwyn magu hyder, gwella sgiliau a'u meithrin i fod ynddysgwyr annibynnol. Bydd athrawon yn gosod tasgau astudio annibynnol er mwyn ymestyn dysgwyr, er enghraifft:

- Gwaith wedi ei gyfeirio gan yr athro
- Adolygu gwaith ag gwblhawyd yn ystod yr wythnos/ tymor
- Gwaith sillafu neu ddatblygu geirfa
- Darllen ar gyfer pleser
- Ymchwil personol
- Cydweithio ag eraill
- Paratoi ar gyfer gwrs

Dylai dysgwyr blwyddyn 7 fod yn cwblhau tua 30 munud o astudio annibynnol y dydd.

We are encouraging learners to take more responsibility for their own learning in order to raise confidence, improve skills and nurture them to be independent learners. Teachers will set independent learning tasks to stretch learners, for example:

- Directed work from the teacher
- Revision of work completed during the week/ term
- Spelling and vocabulary work
- Reading for pleasure
- Independent research
- Collaborating with others
- Preparing for a lesson

learners in year 7 should be completing around 30 minutes a day of independent study.

CYFATHREBU - COMMUNICATION

Rydym yn defnyddio Class Charts er mwyn cyfathrebu. Trwy'r ap gallwch weld eich amserlen, monitro ymddygiad, gweld tasgau astudio annibynnol, derbyn cyhoeddiadau a chofnodi absenoldebau. Byddwch yn derbyn manylion mewngofnodi yn ystod yr wythnos cyntaf.

We use Class Charts to communicate. Through the app you can see your timetable, monitor behavior and effort, see independent study tasks, receive announcements and report absences. You will receive a log in during the first week.

PRYDAU YSGOL AM DDIM - FREE SCHOOL MEALS

Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1986 yn golygu y gall y Cyngor ddarparu prydau ysgol am ddim (PYDD) i blant y mae eu rhieni neu sydd eu hunain yn derbyn y budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal incwm
- Lwfansceiswyr gwaith yn seiliedig ar incwm
- Credyd treth plant gydag incwm blynyddol sy'n llai na £16,190 {Nid oes gennych hawl i'w gael os ydych hefyd yn cael credyd trethgwaith}
- Lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Efen gwarant credyd pensiwn y wladwriaeth
- Cymorth o dan ran VI o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd cynhwysol (lie nad yw'r incwm net misol a enillir yn fwy na £616.67)

The Social Security Act 1986, means that the Council can provide Free School Meals {FSM} to children whose parents or who themselves are in receipt of the following benefits:

- *Income Support*
- *Income based job seekers allowance*
- *Child Tax Credit with an annual income less than £16,190 (you are not entitled if you also receive Working Tax Credit)*
- *Income-related Employment Support allowance*
- *The guarantee element of state pension credit*
- *Support under Part VI of the Immigration and Asylum Act 1999*

Universal Credit (where the monthly net earned income is not more than £616.67)

Gallwch wneud cais yma. You can apply here.

<https://www.gov.wales/free-school-meals-information-parents-and-carers>



GRANT HANFODION YSGOL - SCHOOL ESSENTIALS GRANT

Gall blant y mae eu teuluoedd ar incwm is ac yn gymwys i dderbyn budd-daliadau penodol wneud cais am grant o £225 y dysgwr neu £300 i ddysgwyr sy'n mynd i flwyddyn 7 (i helpu gyda chostau uwch sy'n gysylltiedig â dechrau yn yr ysgol uwchradd)

Gall y grant helpu teuluoedd i brynu:

- Gwisg ysgol, yn cynnwys cotiau ac esgidiau;
- Gwisg chwaraeon yr ysgol yn cynnwys esgidiau;
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys, and heb ei gyfyngu, sgowtiaid; geidiau; cadetiaid; crefftâu ymladd; chwaraeon; celfyddydau perfformio neu ddawns;
- Offer ee bagiau ysgol ac offer ysgrifennu;
- Offer arbenigol pan fydd gweithgareddau newydd yn y cwricwlwm yn dechrau, fel dylunio a thechnoleg; ac
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, fel dysgu awyr agored ee dillad addas sy'n addas i dywydd gwlyb;
- Gliniaduron, offer TG i helpu gyda gwaith ysgol

Mae pob blwyddyn ysgol orfodol o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 11 bellach yn gymwys i wneud cais.

Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal ac sydd o oed ysgol orfodol yn gymwys i dderbyn y grant, p'un ai ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim ai peidio.

Children whose families are on lower incomes and qualify for certain benefits can apply for a grant of £225 per learner or £300 for learners entering year 7 to help with increased costs associated with starting secondary school

The grant can help families with the purchase of:

- *School uniform including coats and shoes;*
- *School sports kit including footwear;*
- *Uniform for enrichment activities, including but not limited to, scouts; guides; cadets; martial arts; sports; performing arts or dance;*
- *Equipment e.g. school bags and stationery;*
- *Specialist equipment where new curriculum activities begin such as design and technology; and*
- *Equipment for out of school hour trips such as outdoor learning e.g. waterproofs;*
- *Laptops, IT equipment to support school work*

All compulsory school years from reception to year 11 are now eligible to apply.

All looked after children of compulsory school age qualify for the grant, whether they receive free school meals or not.

<https://www.gov.wales/school-essentials-grant>





CYSYLLTWCH CONTACT

Ysgol Gymraeg Gwynllyw
Heol y Ffoledd
Trefddyn
Pontypwl
NP4 8JD

yggswyddfa@gwynllyw.cymru

01495 750405

www.gwynllyw.cymru

